# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (253)

**Dyddiad: Dydd Mercher 16 Mawrth 2011**
**Amser: 13.30**

**13.30**
**Eitem 1: Cwestiynau i'r Gweinidog dros y Gyllideb**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 9.

........................................

**14.19**
**Eitem 2: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth**

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

........................................

**15.00**
**Eitem 3: Cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau Apelio ynghylch Gwybodaeth am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru) 2011**

**NDM4691 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod fersiwn ddrafft y Rheoliadau Apelio ynghylch Gwybodaeth am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru) 2011 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

........................................

*Cynigiwyd bod eitemau 4 a 5 yn cael eu trafod gyda'i gilydd o dan Reol Sefydlog 7.20, ond gyda phleidleisiau ar wahân*

**15.00**
**Eitem 4: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011**

**NDM4689 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod fersiwn ddrafft o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Chwefror 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

## Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011

**NDM4690 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod fersiwn ddrafft o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Chwefror 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.........................................**

## 15.12
## Eitem 6: Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol - Adroddiad ail-arolygu Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Sir Ynys Môn

**.........................................**

## 15.52
## Eitem 7: Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd yr un cwestiwn.

**.........................................**

## 15.52
## Cynnig i ohirio'r Rheolau Sefydlog

**NDM4701 Jane Hutt  (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 35.6 a 35.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 7.18 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM4702 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 16 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

……………………………

**15.52**
**Eitem 8: Cynnig mewn cysylltiad ag Etholiad Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015**

**NNDM4702 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr); Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn); Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru) a Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r gwrthdaro posibl rhwng dyddiadau etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015;

2. Yn gwahodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i bennu mai dyddiad etholiad cyffredinol nesaf y Cynulliad, ar ôl 5 Mai 2011, fydd dydd Iau 5 Mai 2016;

3. Yn edrych ymlaen at ymgynghoriad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddarpariaeth ddeddfwriaethol a fyddai'n gwahaniaethu'n barhaol rhwng y dyddiadau ar gyfer etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig a'r dyddiadau ar gyfer etholiadau cyffredinol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

……………………………

**15.58**
**Eitem 9: Cynnig i benodi archwilwyr ar gyfer cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**NDM4695 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraffau 14(1) a (6) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn penodi Archwilydd Cyffredinol yr Alban yn archwilydd i gyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010 – 2011, yn unol â'r telerau yn y Memorandwm dyddiedig 9 Mawrth 2011 y cytunwyd arnynt gan Archwilydd Cyffredinol yr Alban ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae copi o'r Memorandwm y cytunwyd arno gan Archwilydd Cyffredinol yr Alban ac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ei ddosbarthu ar 9 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

……………………………

**15.59**
**Eitem 10: Cynnig i ail-wneud y Rheolau Sefydlog**

**NDM4692 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 35.2 yn:

1. Ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes ‘Adolygiad o Reolau Sefydlog wrth baratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2011;

2. Cymeradwyo’r cynnig i ail-wneud y Rheolau Sefydlog, fel y’i nodir yn Atodiad 4 o adroddiad y Pwyllgor Busnes, i ddod i rym ar 5 Mai 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.......................................**

## 16.05
## Eitem 11: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Bolisïau Cynllunio yng Nghymru

**NDM4693 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar ymchwiliad i Bolisïau Cynllunio yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ionawr 2011.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.......................................**

## 16.35
## Eitem 12: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar yr Agenda Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM)

**NDM4694 Gareth Jones (Aberconwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar yr agenda wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2011.

Nodyn: Ymateb y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.......................................**

## Eitem 13: Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru - TYNNWYD Y CYNNIG YN ÔL

**NDM4696 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) Sicrhau y cynigir gwybodaeth am y rhaglen i'r rheini sy'n gymwys i gymryd rhan yng nghynllun y Fargen Werdd;

b) Sicrhau bod pobl sy'n ymuno â rhaglenni tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru naill ai yn dlawd iawn o ran tanwydd neu'n byw mewn ardaloedd nad ydynt ar y grid nwy;

c) Cyflawni 12,000 o gartrefi cynhesach ychwanegol drwy ddyblu'r arian sydd ar gael i fynd i'r afael â thlodi tanwydd; a

d) Darparu data cywir ar dlodi tanwydd ar gyfer cynllunio a sicrhau bod gwybodaeth dda ar gael ar draws y sector cyhoeddus ac i ddefnyddwyr.

*Mae modd gweld Cynllun y Fargen Werdd drwy ddilyn y linc a ganlyn:*

*http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/what_we_do/consumers/green_deal/green_deal.aspx*

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu tlodi tanwydd ac yn croesawu:

a) Bod £86.5m wedi’i wario ar y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref ers 2007 a bod y buddsoddiad mewn rhaglenni tlodi tanwydd wedi’i warchod hyd yn oed o fewn y setliad ariannol tynn hwn,

b) Cyflwyno’r Rhaglen Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan o 1 Ebrill ymlaen, sydd â’r nod o roi cyngor neu i osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn oddeutu 15,000 o aelwydydd y flwyddyn, gan gynnwys eiddo anodd ei drin ac eiddo nad yw ar y grid nwy,

c) Yr ymrwymiad i ddatblygu gwell data ar dlodi tanwydd, ac adrodd arno’n amlach,

d) Y buddsoddiad mewn cyngor a chefnogaeth ehangach ar effeithlonrwydd ynni drwy’r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a’r Ymddiriedolaeth Garbon, a’r ymwneud â’r gwaith o ddatblygu Bargen Werdd Llywodraeth y DU,

e) Y 28 o brosiectau *arbed* sy’n cael eu gweithredu ar draws Ardaloedd Adfywio Cymru ar hyn o bryd, y mae dros 6,000 o aelwydydd yn manteisio arnynt, bod y £30m a fuddsoddwyd yn *arbed* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi denu cyllid atodol sylweddol o ffynonellau eraill a bod y cynlluniau i gyflwyno cam 2 *arbed* yn 2011/12 yn mynd rhagddynt yn dda.

*Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Dlodi Tanwydd drwy ddilyn y linc a ganlyn:*

http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/energy/fuelpoverty/?skip=1&lang=cy

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i'r Siarter Tlodi Tanwydd.

Gellir gweld copi o'r Siarter Tlodi Tanwydd yn:

http://www.fuelpovertycharterwales.org.uk/assets/uploads/2009/10/Welsh-Fuel-Poverty-Charter-Welsh-V6.pdf

........................................

**17.21**
**Eitem 14: Dadl fer**

**NDM4688 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):**

S4C - Fe fydd y chwyldro ar y teledu

Gellir gwylio'r DVD a gafodd ei dangos yn ystod y ddadl fer yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_900001_14_03_2011&t=0

Daeth y cyfarfod i ben am 17.41.

........................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 22 Mawrth 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**Atodiad**

Dangoswyd y ddelwedd hon ar y DVD yn ystod y ddadl fer.



Results for #chwyldros4c

Tweets | Tweets with links | Tweets near you | People

**bethanjenkins** bethanjenkins
Mynd i sgwennu araith #chwyldros4c fory felly os oes mwy o syniadau gad wbod cyn hir!
12 Mar

**bethanjenkins** bethanjenkins
angen syniadau ar sut byddech chi'n hoffi gweld #s4c yn cael ei rheoli. Syniadau da am rhaglennu angen mwy o ran arweinyddiaeth #chwyldros4c
10 Mar

**neilwyn** neil wyn jones
#ChwyldroS4C Rhentu Huw Ffash i syrcas fel human canonball er mwyn codi arian i achub #wedi3 Newyddion a slot amser cinio'n neud sens'fyd.
9 Mar

**copecymraeg** Chris Cope
Ychwanegu newyddion i Wedi 3 a symud y rhaglen i amser cinio. #ChwyldroS4C
9 Mar

**stanno** Iwan Stanno
Wedi fy atgoffa heddiw gan @llinostdavies am y rhaglen orau erioed fuodd ar S4C - dewch â Bwydro nôl! #chwyldroS4C
9 Mar

**Ema1m** Ema Williams
#chwyldros4c rhaglen am waith llaw #peidiwchabodynfudur
9 Mar



**ianjamesjohnson** Ian Johnson
Arglwydd Wigley #plaidcymru siarad am S4C yn y Ty Argwlyddi #achubs4c #s4c **#chwyldros4c**
9 Mar



**MorysG** Morys Gruffydd
'No Fly Zone' dros Llanisien. Anfon yr SAS mewn i Barc Tŷ Glas i achub staff yr orsaf! **#chwyldroS4C**
9 Mar



**elliwiw** Elliw Iwan
@collgwynfa @betsan ie ie ie. Dychymyg a gwreiddioldeb **#chwyldros4c**
9 Mar



**dylmei** dyl mei
Doswch am swydd, ewch am brentisiaeth fodern **#chwyldros4c**
9 Mar



**dylmei** dyl mei
i'r pobol fawr oedd yn Gerddorion, actorion, artistiad ect ect cyn rhedeg petha. cofiwch o lle chi'n dod **#chwyldros4c**
9 Mar



**aledilltud** Aled Humphreys
#chwyldroS4C Ffilm am zombies yn Maes B.
9 Mar



**francogallois** Em Dafs
Cael hyd i gyflwynwyr sydd ddim yn defnyddio: so, really, joio, great **#chwyldros4c**
9 Mar



**dylmei** dyl mei
Newydd glywed ar newyddion bod un o'r syniadau i S4C ydi FWY o rygbi!. GO BACK TO BED WALES. GO BACK TO BED **#chwyldros4c**
9 Mar